mencap

Y Comisiwn Etholiadol

hawdd ei ddarllen

Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio gydag ID Pleidleisiwr

Popeth sydd angen i chi ei wybod am gael ID ffotograffig ar gyfer yr etholiad cyffredinol

ID Pleidleisiwr: Pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol

ID ar gyfer pleidleisio

Bydd angen i chi gofio mynd ag ID gyda'ch llun arno chi pan fyddwch yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

Gorsaf bleidleisio yw lle rydych chi'n mynd er mwyn pleidleisio mewn etholiad.

Bydd angen i chi ddangos un ID o'r rhestr yma:

- pasbort
- trwydded yrru (mae trwydded yrru dros dro yn iawn hefyd)
- cerdyn adnabod gyda nod PASS
- Mae'r cerdyn adnabod yma yn profi faint yw eich oed.
- dogfen mewnfudo biometrig
- Mae'r ddogfen yma yn profi pwy ydych chi ac yn cynnwys llun ac olion bysedd.
- cerdyn adnabod amddiffyn



Mae rhai cardiau teithio a rhai cardiau adnabod cenedlaethol yn iawn hefyd.

Ewch i wefan y llywodraeth i weld pa gardiau sy'n iawn i'w defnyddio.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Canllaw hawdd ei ddarllen i egluro ID Pleidleisiwr 2024.003

ID Pleidleisiwr: Pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol

Os yw'r ID yn hen, mae'n iawn ei ddefnyddio os yw'r llun sydd arno yn dal i edrych fel chi.

I ddarllen mwy am beth gallwch chi ei ddefnyddio fel ID, ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol

neu ffoniwch linell gymorth y Comisiwn Etholiadol: 0800 328 0280.

Os nad oes gennych unrhyw un o'r ID ar y rhestr,

neu os nad ydych chi'n siŵr bod y llun yn dal i edrych fel chi



gallwch wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.

Mae Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr am ddim.

Byddwch chi'n gallu defnyddio eich Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr fel ID pan fyddwch chi'n pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Canllaw hawdd ei ddarllen i egluro ID Pleidleisiwr 2024.003

The Electoral Commission

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**